



Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd:	1
Dyddiad y Crëwyd:	01.04.19
Dyddiad y Cyhoeddwyd:	05.04.19
Rhif y Fersiwn:	1

**Manylion Cyswllt:** Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell  
029 20864790  
yycpa@caerphilly.gov.uk

**Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** Prosesu gwybodaeth disgyblion

**Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn disgrifio sut y bydd yr ysgol yn prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a theuluoedd.

## Hysbysiad Preifatrwydd Llawn

### Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

#### Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

##### Categoriâu o ddata personol a geir

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell yn ei chadw/defnyddio amdanoch wedi'i chasglu oddi wrthyf yn uniongyrchol, ond efallai y bydd rhai gwybodaeth wedi dod oddi wrth sefydliadau/ffynonellau eraill, fel y rhestrir isod.

Mae'r ysgol wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol sy'n ffurfio eich cofnod addysg:

- dynodwyr a chysylltiadau personol (megis enw, rhif unigryw disgybl, manylion cyswllt a chyfeiriad)
- nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cymhwyster prydau ysgol am ddim a statws mewnffudo)
- gwybodaeth ddiogelu (megis gorchmynion llys ac ymwneud proffesiynol)
- anghenion addysgol arbennig (gan gynnwys yr anghenion a'r graddio)
- meddygol a gweinyddu (megis gwybodaeth am feddygon, iechyd plant, iechyd deintyddol, iechyd meddwl a chorfforol, alergedd, meddyginiaeth a gofynion dietegol)
- presenoldeb (fel sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau, rhesymau absenoldeb ac unrhyw ysgolion blaenorol a fynychwyd)
- perfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnol a chenedlaethol
- gwybodaeth am ymddygiad (megis gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaeth amgen berthnasol a roddir ar waith)

- manylion am gynhaliaeth a dderbyniwyd, gan gynnwys pecynnau gofal, cynlluniau gan asiantaethau allanol
- ffotograffau
- delweddau CCTV a ddaliwyd ar safle'r ysgol

## **Ffynhonnell y data personol**

Casglwyd y wybodaeth hon o:

- Disgyblion/teuluoedd yn uniongyrchol, (e.e. trwy ffurflenni cofrestru ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, ceisiadau am deithiau ysgol, ac ati)
- Cyfadran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (os yn berthnasol)
- Rhannwyd yr wybodaeth hon gyda'r ysgol gan ysgol flaenorol a fynychwyd gan y disgybl
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Gwasanaeth Iechyd Ysgolion

Os hoffech ragor o wybodaeth am ffynhonnell yr wybodaeth hon, cysylltwch â'r ysgol.

## **Eich Rhwymedigaethau**

Mae rhai data disgyblion yn hanfodol ar gyfer defnydd gweithredol yr ysgol. Er bod y rhan fwyaf o wybodaeth am y disgybl a roddwch inni yn orfodol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu gytundebol (gweler isod), mae peth ohono'n ddewisol, ac os felly, gofynnir i chi roi eich caniatâd.

Byddwn yn eich hysbysu wrth eu casglu p'un a ydy'n ofynnol i chi roi gwybodaeth benodol i ni neu os mae gennych ddewis yn hyn o beth, ac unrhyw ganlyniadau pe baech yn penderfynu peidio â darparu gwybodaeth neu i dynnu caniatâd yn ôl wedyn.

## **Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth**

### **Diben y gwaith prosesu**

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a'u teuluoedd:

- i gefnogi dysgu disgyblion
- i fonitro ac adrodd ar gynnydd disgyblion
- i ddarparu gofal bugeiliol priodol
- i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- i gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, neu fanylion cyswllt brys)
- i fodloni'r dyletswyddau statudol a roddwyd arnom ar gyfer casgliadau data Llywodraeth Cymru
- i weinyddu teithiau a gweithgareddau, arlwyo a rheoli prydau ysgol am ddim, a all gynnwys rheoli/dilysu hunaniaeth gan ddefnyddio biometreg.

### **Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon, mae angen amod Erthygl 6 o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016.

- Mae prosesu gorfodol yr ysgol o wybodaeth disgyblion yn cael ei gwmpasu gan amod Erthygl 6 - mae angen prosesu ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi. Mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol wedi'i chynnwys yn Neddf Addysg 1996 a rheoliadau cysylltiedig Llywodraeth Cymru.

- Mae prosesu dewisol data personol yn cael ei gynnwys yn amod Erthygl 6 - caniatâd penodol. Os yw hyn yn wir, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol.

Er enghraiff, bydd Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell yn gofyn am eich caniatad i gyhoeddi neu arddangos lluniau o'ch mab / merch ar arddangosfeydd o amgylch yr ysgol, mewn papurau newydd neu erthyglau papurau lleol ac ar ein gwefan ysgol neu dudalennau gwefannau cymdeithasol yr ysgol. Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatad ar unrhyw adeg. Cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw data personol 'categori arbennig', sy'n cynnwys:

- Iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol
- Gwleidyddiaeth
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Crefydd neu gredoau eraill o natur debyg
- Bywyd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Aelodaeth undeb llafur
- Geneteg
- Biometreg (Ile y'i defnyddir at ddibenion adnabod)

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu diogelu ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas â honiadau achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol.

Os mae unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniadau hyn, mae angen amodau ychwanegol o Erthygl 9 ar gyfer data personol categori arbennig ac Erthygl 10 ar gyfer data personol sy'n ymwneud â throseddau. Mae'r amodau ychwanegol hyn wedi'u cynnwys ym Mesur Diogelu Data y DU, a ddeddfir yn ystod 2018. Pan fydd y Bil wedi'i ddeddfu, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cael ei ddiweddarau, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, cysylltwch â'r ysgol.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data

Ar gyfer eich gwybodaeth, y Rheolwr Data yw Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell.

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn cael ei gontractio gan yr ysgol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data yr ysgol ar 01443 864322 neu drwy e-bost ar [diogeludata@caerffili.gov.uk](mailto:diogeludata@caerffili.gov.uk)

### Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Mae'n rhaid inni rannu gwybodaeth benodol disgyblion â sefydliadau penodol, ond dim ond gyda rheswm a ddiffinir yn glir a sail gyfreithiol briodol o dan y gyfraith diogelu data.

Rydym bob amser yn sicrhau bod rhannu gwybodaeth bersonol yn cael ei gynnal yn ddiogel.

Sefydliad	Rheswm a sail gyfreithiol
Ysgol y bydd y disgybl yn ei mynychu wedyn	Parhad addysg - cydymffurfiaeth â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	I fonitro darpariaeth addysg ac ymchwil i lywio penderfyniadau polisi a chyllido - cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 y

	<p>Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)</p> <p>I ddarparu cefnogaeth TG - perfformio contract (Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)</p> <p>I ddarparu cefnogaeth lechyd a Diogelwch - perfformio contract (Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)</p> <p>I amddiffyn hawliadau yswiriant - buddiannau dilys (Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) ac achosion cyfreithiol (Erthygl 9 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)</p> <p>I weinyddu cefnogaeth Anghenion Addysgol Arbennig - tasg gyhoeddus (Erthyglau 6 a 9 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)</p> <p>Pwrpasau diogelu - cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, buddiannau hanfodol, neu dasg gyhoeddus (Erthyglau 6 a 9 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)</p>
Llywodraeth Cymru (manylion pellach isod)	Darparu ystadegau i fonitro addysg - cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Darparu gwasanaeth iechyd ysgol - tasg gyhoeddus (Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data); iechyd y cyhoedd (Erthygl 9 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
Gwasanathau Ymyrraeth Therapi	Staff gan wasnaethau eraill (gan gynnwys doctoriaid a gweithwyr cymdeithasol) sy'n gweithio gyda'r plentyn er mwyn sicrhau cydweithrediad aml-broffesiynol i ddeall ymddygiadau trafferthus a phwrpasau rheoli risg eraill. (Erthyglau 6 a 9 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)

### Rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am ddisgyblion yn uniongyrchol o ysgolion fel rheol fel rhan o gasglu data statudol sy'n cynnwys y canlynol:

- Casglu data ôl-16
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casglu ar lefel disgyblion derbyn addysg heblaw yn yr ysgol
- Casglu data cenedlaethol
- Casglu presenoldeb
- Casglu data Arholiadau Cenedlaethol Cymru

Yn ychwanegol at y data a gesglir fel rhan o CYBLD, mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hefyd yn derbyn gwybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau arholiadau cyhoeddus a data presenoldeb ar lefel disgyblion unigol sy'n dod o ysgolion a/neu Gyrrff Dyfarnu (e.e. CBAC).

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon ar gyfer ymchwil (a gynhelir mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod plant a phobl ifanc unigol) ac at ddibenion ystadegol, i lywio, dylanwadu a gwella polisi addysg a monitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn gyffredinol. Gellir gweld enghreifftiau o'r math o ystadegau a gynhyrchwyd ar <https://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy>. Mae rhagor o wybodaeth am ddefnydd Llywodraeth Cymru o ddata personol wedi'i nodi o fewn Polisi Preifatrwydd Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma.

## Ceisiadau am wybodaeth

Gall yr holl wybodaeth a gofnodir gan yr ysgol fod yn destun ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a chyfraith diogelu data (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018).

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd yr ysgol yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Rydym yn cadw data disgyblion yn ddiogel am y swm penodol o amser a ddogfennir yn ein hamserlen cadw data.

- Bydd ysgolion cynradd yn cadw gwybodaeth tra bod y plentyn yn aros yn yr ysgol gynradd, ac yn trosglwyddo'r wybodaeth yn ddiogel i'r ysgol uwchradd neu ddarpariaeth arall pan fydd y plentyn yn symud ymlaen.
- Bydd ysgolion uwchradd yn cadw gwybodaeth am ddisgyblion a'u teuluoedd am 25 mlynedd ar ôl dyddiad geni'r disgybl.

Bydd gwybodaeth gyda gwerth hanesyddol yn cael ei drosglwyddo i Archifau Gwent, ond bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn amodol ar gyfnod cau priodol fel ei bod wedi'i chyfyngu o arolygiad cyhoeddus. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Archifau Gwent ar 01495 353363 [enquiries@gwentarchives.gov.uk](mailto:enquiries@gwentarchives.gov.uk) [www.gwentarchives.gov.uk](http://www.gwentarchives.gov.uk)

## Eich Hawliau (gan gynnwys y weithdrefn gwynion)

### Eich hawliau dan gyfraith diogelu data

Mae cyfraith diogelu data'n rhoi nifer o hawliau i destunau data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Yr hawl i'r testun gael mynediad
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).

I arfer eich hawliau, cysylltwch â'r ysgol.

### Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae'r ysgol wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r ysgol gan amlinellu'ch pryderon yn y lle cyntaf.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data yr ysgol ar 01443 864322 [diogeludata@caerffili.gov.uk](mailto:diogeludata@caerffili.gov.uk)

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 029 2067 8400.